

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd
Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)
Clinig FACE, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint
Dyddiad yr arolygiad: 13 Tachwedd 2025
Dyddiad cyhoeddi: 13 Chwefror 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	17
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	19
	Atodiad C - Cynllun gwella	20

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o glinig FACE ar 13 Tachwedd 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 15 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y staff yng nghlinig FACE yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd y safle yn ddymunol, mewn cyflwr da ac yn lân iawn.

Roedd y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch. Roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn canmol proffesiynoldeb, gwybodaeth a chyfeillgarwch y staff.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith ar gyfer rhoi gwybodaeth i gleifion cyn, yn ystod, ac ar ôl eu triniaeth. Roedd mesurau priodol ar waith i gasglu adborth ac ymdrin â chwynion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cyfathrebu â'r cleifion
- Darparu cyfleusterau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn
- Ceisio adborth gan gleifion mewn ffordd weithredol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod clinig FACE yn cynnal safon uchel o ddiogelwch a'i fod yn darparu gofal mewn modd effeithiol. Roedd yr amgylchedd yn lân, mewn cyflwr da ac yn cynnig lleoliad dymunol i'r cleifion.

Roedd yr unedau laser mewn cyflwr da, gyda mesurau diogelwch a chofnodion gwasanaethu priodol, ond roedd dyddiad gwasanaethu un uned wedi mynd heibio ac roedd y clinig yn ymdrin â hyn. Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau cymwysedig ac roedd rheolau a phrotocolau lleol cynhwysfawr ar waith. Roedd y gweithredwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddefnyddio laserau.

Roedd cofnodion y cleifion yn gynhwysfawr, yn cael eu storio'n ddiogel ac yn cael eu rheoli'n electronig.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal asesiad risg lechyd a Diogelwch

- Sicrhau bod unedau laser yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd nodiadau cleifion manwl yn cael eu storio gan ddefnyddio system electronig sydd wedi'i dylunio'n dda
- Safle glân a thaclus a oedd mewn cyflwr da.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur llywodraethu clir ar waith yn y clinig ac roedd rheolwr practis yn gweithio yno. Roedd y clinig hefyd yn aelod o gynllun achredu 'Save Face', a oedd yn darparu cymorth ychwanegol.

Roedd gweithdrefn gwyno addas ar gael i'r cleifion, gan gynnwys amserlenni a manylion uwchgyfeirio clir.

Roedd y gweithdrefnau recriwtio a sefydlu yn gadarn a disgrifiodd y staff drefniadau hyfforddiant da gyda chymorth a datblygiad strwythuredig.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r staff lofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y polisiau a'r gweithdrefnau
- Rhoi systemau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Arweinyddiaeth glir ac eglurder o ran rolau'r staff
- Hyfforddiant da iawn ar gyfer aelodau newydd o staff.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol gyda'r cleifion yn canmol proffesiynoldeb a gwybodaeth y staff, a nododd llawer ohonynt eu bod yn deyrngar i'r clinig ac yn ei argymhell.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'n lle glân a phroffesiynol iawn. Mae'r merched bob amser yn garedig, yn amyneddgar ac yn broffesiynol. Ni fyddwn yn mynd i unrhyw le arall."

"Cyfleuster anhygoel gyda staff anhygoel. Ni fyddwn yn mynd i unrhyw le arall i gael fy nhriniaethau. Mae gen i bob ffydd yn y staff i roi cyngor i mi ar driniaethau priodol."

"Mae'r gwasanaeth a'r staff yn creu awyrgylch proffesiynol a hamddenol. Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn broffesiynol."

Urddas a pharch

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd gan y ddwy ystafell drin ddrysau y gellid eu cloi, ac nid oedd ganddynt ffenestri allanol, er mwyn sicrhau preifatrwydd y cleifion yn ystod triniaethau. Roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn y dderbynfa i hyrwyddo preifatrwydd y cleifion yn ystod triniaethau.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gallai cleifion newid, pe bai angen, yn yr ystafelloedd trin y gellir eu cloi ac y byddai'r aelodau o'r staff yn gadael yr ystafell er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y claf.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a bod y staff wedi gwrandao arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Dywedodd y gweithredwr wrthym fod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl yn ystod ymgynghoriadau, er mwyn sicrhau y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu

triniaeth. Roedd y cleifion yn llofnodi ffurflen gydsynio yn electronig cyn y driniaeth gychwynnol a phob apwyntiad dilynol. Roedd y rhain yn cael eu storio fel rhan o gofnod y claf.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr holl opsiynau triniaeth a'u risgiau a'u manteision, ac roedd pawb ond un yn cytuno bod y gost wedi cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gan y clinig wefan a oedd yn darparu gwybodaeth am ei wasanaethau, prisiau a manylion cyswllt. Roedd y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael i gleifion ar y safle.

Yn benodol, roedd gan y clinig ap ffôn symudol lle gallai'r cleifion wneud cais am wybodaeth neu edrych arni, trefnu apwyntiadau a chasglu pwyntiau teyrngarwch.

Gwnaethom edrych ar y broses gwyno a gwelsom ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, gan gynnwys â phwy y dylid cysylltu, amserlenni priodol ar gyfer ymateb i gwynion a manylion cyswllt AGIC.

Roedd y clinig wedi rhoi rhestr gynhwysfawr o brisiau triniaethau ar ei wefan ac mewn taflen ar y safle.

Gwahoddwyd y cleifion i gysylltu â'r clinig yn bersonol, dros y ffôn, drwy'r wefan neu drwy'r ap.

Roedd pawb a atebodd holiadur AGIC yn cytuno bod y staff yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod y driniaeth, yn gwrando ar y cleifion ac yn ateb cwestiynau. Dywedodd un ymatebydd:

"Gwnaeth y staff wneud i mi deimlo'n gyfforddus a gwnaethant esbonio popeth i mi yn glir."

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb a phrawf croen cyn cael triniaeth, ac roedd y canlyniadau'n cael eu dogfennu fel rhan o gofnod triniaeth y claf.

Disgrifiodd y staff drefniadau priodol ar gyfer cael gafael ar hanes meddygol a gweithdrefnau er mwyn asesu cleientiaid, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Fel rhan o hyn, roedd y cleifion yn cyflwyno ffurflen hanes meddygol electronig cyn i unrhyw driniaeth ddechrau. Byddai gwiriadau ar lafar yn cael eu cynnal ym mhob ymweliad dilynol i nodi unrhyw newidiadau ers yr ymgynghoriad cychwynnol.

Gwelsom fod cofrestr triniaethau ysgrifenedig yn cael ei chadw ar gyfer pob uned laser. Roedd hyn yn cynnwys manylion adnabod y claf, y dyddiad a'r math o driniaeth, paramedrau'r driniaeth a manylion adnabod y gweithredwr.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio a bod prawf croen wedi cael ei gynnal cyn iddynt gael triniaeth.

Dywedodd un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC:

"Rhoddodd y staff wybod i mi nad oeddwn yn gallu cael triniaeth eto gan fy mod i newydd orffen radiotherapi a gwnaethant esbonio pam. Gwnaeth hyn argraff dda iawn arnaf. Ni fyddai lleoedd eraill wedi gwneud yr un peth, yn fy marn i."

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a'r rhai ag anawsterau symudedd ddefnyddio'r gwasanaethau ar y safle. Roedd mynediad gwastad heb unrhyw risiau i bob rhan o'r safle, ac roedd pob ardal ar y llawr gwaelod. Cafodd y toiled ei gynllunio i fod yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn gyda drws llydan iawn, toiled uchel, sinc isel, ac amrywiaeth o handlenni cydio.

Roedd pawb a atebodd holiadur AGIC yn cytuno nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd y clinig yn gofyn i gleifion am adborth mewn ffordd ragweithiol. Roedd codau ymateb cyflym (QR) yn cael eu harddangos ar y safle i gyfeirio'r cleifion at blatfformau adolygu ar-lein. Roedd y clinig yn darparu ap ac yn annog y cleifion i roi adborth drwy gynnig pwyntiau teyrngarwch am bob adolygiad.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cynnal arolygon cleifion i lywio penderfyniadau busnes. Rhoddwyd enghraifft lle y gwnaed penderfyniad ynglŷn â diwygio'r oriau busnes o ganlyniad uniongyrchol i safbwyntiau'r cleifion.

Amlinellodd y staff y ffordd y caiff adborth ei adolygu'n rheolaidd a nodwyd bod y cleifion yn cael eu hannog i gysylltu os oedd ganddynt unrhyw broblemau neu bryderon.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y lleoliad yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da yr olwg. Roedd y clinig mewn cyflwr da iawn ac yn darparu amgylchedd dymunol a chroesawgar i'r cleifion.

Roedd toiled rhywedd cymysg ar gael i gleifion gyda chyfleusterau golchi a sychu dwylo priodol ac uned gwaredu eitemau mislif.

Roedd toiled ar wahân ar gael i'r staff, ynghyd ag ystafell staff dan glo lle gallent storio eu heiddo.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan y clinig bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y staff a'r cleifion yn y clinig. Gwnaethom nodi bod polisi iechyd a diogelwch ar waith ond nad oedd unrhyw asesiad risg cysylltiedig.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiad risg iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal a'i adolygu'n rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth o adroddiad cyfredol ar osodiadau trydanol a phrofion offer cludadwy.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau diogelwch tân, gyda diffoddwyr tân a oedd wedi cael eu gwasanaethu'n briodol wedi'u gosod ar y waliau'n gywir gydag arwyddion clir. Roedd yr allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir ac roedd arwyddion priodol i'w gweld. Roedd tystiolaeth bod y systemau synhwyro tân yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos yn glir. Roedd asesiad risg tân ar waith a disgrifiodd rheolwr y practis sut yr eir i'r afael â'r camau a nodwyd a sut y cânt eu cofnodi. Gwnaethom awgrymu y byddai crynodeb sy'n dangos yr holl argymhellion a'r camau a gymerwyd yn ddefnyddiol er mwyn monitro cynnydd.

Gwnaethom nodi y gallai un o'r arwyddion wedi'u goleuo ar gyfer allanfa dân i'w defnyddio mewn argyfwng awgrymu llwybr dianc anghywir os edrychir arno o un cyfeiriad, a gwnaethom awgrymu y dylid gofyn am gyngor o ran cuddio un ochr o'r arwydd er mwyn ei wneud yn gliriach.

Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddiogelwch tân.

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael ac roedd yr holl eitemau yn bresennol ac yn gyfredol. Mae'r tri gweithredwr wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod pob rhan o'r clinig, gan gynnwys yr ystafelloedd trin, yn lân ac yn daclus yr olwg. Roedd yr adeilad mewn cyflwr da iawn a oedd yn sicrhau bod modd ei lanhau'n effeithiol.

Gwelsom fod trefniadau hylendid dwylo priodol ar waith. Roedd cyfleusterau golchi dwylo yn yr ystafelloedd trin ac roedd gel diheintio ar gael.

Disgrifiodd y staff drefniadau glanhau priodol, gan gynnwys rhwng cleifion, a nodwyd bod y safle yn lân iawn. Roedd amserlenni glanhau ar gyfer y ddwy ystafell drin gyda rhestrau gwirio a gaiff eu llofnodi. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar atal a rheoli heintiau.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn lân iawn.

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio mewn bin wedi'i gloi a oedd yn cael ei storio'r tu allan, ac roedd contract ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff i gael gwared arno. Gan y gallai'r cyhoedd gael mynediad i ardal storio'r bin gwastraff, gwnaethom argymhell y dylid gosod y bin yn sownd wrth yr adeilad er mwyn sicrhau na allai unrhyw bersonau heb awdurdod ei symud. Dywedodd y staff wrthym y byddai angen i'r landlord gymeradwyo hyn.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ganfod ffordd o osod y bin gwastraff clinigol yn sownd fel na all unrhyw un ei symud heb awdurdod.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 16 oed a throsodd. Dywedodd y staff wrthym fod plant yn cael eu hannog i beidio â mynd i'r safle ac nad oeddent yn cael mynd i'r ystafelloedd trin.

Roedd polisi diogelu cyfredol ar waith yn practis ac roedd y staff yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn ymwybodol o'r ap ffôn symudol a chafodd hyn ei ddatrys ar y diwrnod drwy lawrlwytho copïau.

Roedd yr arweinydd diogelu yn nyrs gymwysedig ac wedi cael hyfforddiant hyd at lefel tri, sy'n lefel uwch na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer rôl gweithredwr laser. Roedd aelodau eraill o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu ac yn gallu disgrifio gweithdrefnau addas ar gyfer ymdrin â phryder diogelu.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd y ddwy uned laser mewn cyflwr da, yn lân yr olwg ac yn gyson â'r cofrestriad ag AGIC.

Roedd arwyddion priodol ar ddrysau'r ystafelloedd trin i rybuddio pobl bod unedau laser yn cael eu defnyddio. Roedd gan y ddwy uned laser swithis ag allwedd ac roedd yr allweddi yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oedd y peiriannau'n cael eu defnyddio. At hynny, roedd drysau'r ystafelloedd trin yn cael eu cloi pan nad oedd yr ystafelloedd yn cael eu defnyddio.

Roedd un o'r unedau laser yn llai na 12 mis oed ac felly nid oedd angen ei gwasanaethu na'i chynnal a'i chadw eto.

Roedd gan yr uned laser arall gofnodion a oedd yn dangos ei bod yn cael ei gwasanaethu'n flynyddol a bod gwiriadau mewnol yn cael eu cynnal. Esboniodd y gweithredwr fod dyddiad gwasanaethu'r uned wedi mynd heibio ar adeg yr arolygiad o ganlyniad i argaeledd y peiriannydd a rhan newydd yr oedd ei hangen. Fodd bynnag, roedd yn bwriadu gwneud hyn o fewn chwe wythnos i'r arolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr uned laser dan sylw yn cael ei gwasanaethu a'i chynnal a'i chadw'n briodol.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau sy'n meddu ar y cymwysterau addas. Roedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi ymweld â'r safle yn ystod y misoedd diwethaf ac roedd adroddiad priodol ar yr ymweliad ar gael. Roedd rheolau lleol a phrotocolau trin priodol ar waith.

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid addas ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr, ac roedd yn gyson â'r rheolau lleol a disgrifiodd y gweithredwr wiriadau rheolaidd i sicrhau bod y cyfarpar yn addas i'w ddefnyddio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd pob gweithredwr awdurdodedig wedi cael hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddefnyddio'r unedau laser penodol a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth cyffredinol, yn unol â chanllawiau Cymdeithas Laser Meddygol Prydain (BMLA).

Roedd protocolau trin priodol ar waith, ac roedd y rhain yn cynnwys technegau trin, paramedrau ac amrywiadau a ganiateir a chymryd i'w cymryd pe bai digwyddiad andwyol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei annog a'i adolygu'n rheolaidd, er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth.

Roedd y clinig yn cynnal adolygiadau cleifion gyda lluniau 'cyn ac ar ôl' y driniaeth i asesu pa mor llwyddiannus oedd y driniaeth. Nododd y staff hefyd fod effeithiolrwydd triniaethau yn cael ei fonitro drwy gydol y broses a bod addasiadau yn cael eu gwneud i'r cynllun triniaeth pe bai angen.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom drefniadau cadw cofnodion da iawn, ac roedd gwybodaeth gynhwysfawr yn cael ei chofnodi'n electronig. Roedd hyn yn cynnwys manylion adnabod y claf, hanes meddygol, cydsyniad, ffurflenni ymgynghori a hanes triniaethau. Roedd y rhyngwyneb a ddefnyddiwyd yn glir, yn hawdd ei ddeall a'i ddefnyddio ac yn golygu y gellid cofnodi gwybodaeth yn effeithiol.

Disgrifiodd y staff systemau diogel a phriodol ar gyfer storio a chadw cofnodion cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwelsom drefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth clir yn y clinig, gan gynnwys y ffaith bod rheolwr practis yn gweithio yno.

Roedd y clinig yn aelod o gynllun achredu cofrestredig 'Save Face', a oedd hefyd yn rhoi cymorth gyda pholisïau, gweithdrefnau a phrosesau archwilio.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn bodloni'r gofynion rheoliadol. Gwnaethom argymhell y dylai'r rhain gael eu llofnodi gan y staff i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn llofnodi'r polisïau a'r gweithdrefnau i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Gwelsom fod tystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn glir. Roedd gan y clinig yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant cyflogwr cyfredol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno addas ar waith a oedd hefyd ar gael i'r cleifion. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a manylion cyswllt i uwchgyfeirio pryderon at gyrff allanol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i recriwtio a sefydlu staff. Roedd y rhain yn cynnwys gwirio manylion adnabod, yr hawl i weithio yn y DU, geirdaon, a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gwelsom restr wirio ar gyfer y rhaglen sefydlu a oedd yn cael ei defnyddio i sicrhau bod yr holl wiriadau wedi cael eu cwblhau a bod y cyflogeion wedi cael gwybod am weithdrefnau amrywiol, gan gynnwys cyfrinachedd cleifion, trin data, diogelwch tân a sut i godi pryderon.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom siarad ag aelod o staff a gafodd ei recriwtio'n ddiweddar a disgrifiodd drefniadau hyfforddiant arbennig o dda, gyda datblygiad a hyfforddiant strwythuredig. Roedd yr unigolyn yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda yn ei rôl.

Roedd trefniadau arfarnu ac adolygu cymheiriaid priodol ar waith ac roedd cyfarfodydd rheoli yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn nodi unrhyw anghenion hyfforddiant.

Nid oedd systemau digon cadarn ar waith ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant gorfodol er mwyn nodi pryd roedd angen ymgymryd â hyfforddiant a chadw cofnodion i ddangos cydymffurfiaeth.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod systemau cadarn ar waith i nodi a monitro cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant gorfodol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Clinig FACE

Dyddiad yr arolygiad: 13 Tachwedd 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Clinig FACE

Dyddiad yr arolygiad: 13 Tachwedd 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith ond nid oedd asesiad risg cysylltiedig.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiad risg iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal a'i adolygu'n rheolaidd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9	Caiff asesiad risg Iechyd a Diogelwch ei gynnal ym mis Ionawr 2026	Shellie Jones	Ionawr 2026
2. Gallai aelodau o'r cyhoedd gael mynediad i ardal storio'r bin gwastraff.	Dylai'r rheolwr cofrestredig ganfod ffordd o osod y bin gwastraff clinigol yn sownd fel na all unrhyw un ei symud heb awdurdod.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9	Mae cyfyngiadau lesddaliad yn golygu na allwn ddefnyddio cadwyn i osod y bin yn sownd wrth yr adeilad. Fodd bynnag, caiff y risg ei lliniaru drwy sicrhau bod y bin dan glo bob amser, ac mae biniau gwastraff eraill	Shellie Jones	Rhagfyr 2025

				a giât yn cyfyngu ar fynediad. At hynny, ni chaiff unrhyw offer miniog eu storio yn y bin allanol. Caiff y rhain eu cadw dan do a'u casglu'n uniongyrchol o'r clinig.		
3.	Roedd dyddiad gwasanaethu un uned laser wedi mynd heibio	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr uned laser dan sylw yn cael ei gwasanaethu a'i chynnal a'i chadw'n briodol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9	Trefnwyd i beiriannydd ddod i'w gwasanaethu ym mis Ionawr 2026.	Joanne Roberts	Ionawr 2026
4.	Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Gwnaethom argymhell y dylai'r rhain gael eu llofnodi gan y staff i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall.	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn llofnodi'r polisiau a'r gweithdrefnau i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9	Mae pob aelod o'r staff wedi llofnodi'r polisiau sydd wedi cael eu hargraffu ac sy'n cael eu cadw yn yr ystafell staff i'w darllen	Shellie Jones	Rhagfyr 2026
5.	Nid oedd systemau digon cadarn ar waith ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod systemau cadarn ar waith i nodi a monitro	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 20	Mae Matrics Hyfforddiant ar waith i nodi cofnodion a dyddiadau hyfforddiant	Shellie Jones	Ionawr 2026

gorfodol er mwyn nodi pryd roedd angen ymgymryd â hyfforddiant a chadw cofnodion i ddangos cydymffurfiaeth.	cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant gorfodol.		Caiff tystysgrifau hyfforddiant eu cadw ar OneDrive yn y cwmwl		
---	---	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Shellie Jones

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 17 Rhagfyr 2025